

❖ CYMERIADAU STORI'R GENI

Ddechrau'r mis hwn troais i mewn i un o siopau Oxfam yn ninas Abertawe er mwyn gweld a oedd rhywbeth yno yng nghornel y llyfrau ail-law. Doedd yr un llyfr o bwys yno ond fe ddaliodd rhyw focs esgidiau cardbord fy sylw am ei fod yn llawn o deganau plastig. Gwelwn fod yno asyn a llefnyn ifanc yn chwythu trwmped ymhlith y teganau. Prynais y bocs yn rhyw feddwl y deuai ei gynnwys yn handi i gadw plant bach sy'n dod i'n tŷ ni o bryd i'w gilydd yn dawel.

Yn hwyrach yr un dydd cymerais hamdden i sbïo eto beth oedd yn y bocs. Ni chymerodd yn hir i mi sylweddoli fy mod wedi prynu cymeriadau stori'r geni. Dyna'r angel â'i adenydd euraidd, ei freichiau ar led a'i ddwylo yn dal sash â'r gair 'Gloria' arno. (Yn yr Eidal y'u gwnaed.) Penlinio y mae Mair. Wyneb ifanc sydd iddi ac y mae osgo'i phen a'i breichiau yn awgrymu syndod addolgar. Oedrannus yw Joseff ac ar ei ddeulin y mae yntau, a'r ffon sy'n ei law dde yn awgrymu musgrellni corfforol. Gorwedd yn y preseb y mae'r baban Iesu yn ei gadachau a'i ddwylo'n derbyn y byd. Gwladaidd yw'r olwg sydd ar y tri bugail, dau ohonynt yn canu cân, y llefnyn y soniais eisoes amdano â'i drwmped a'r llall â'i bibau. Y mae'r trydydd yn cario dafad ar ei ysgwyddau. Dyna'r tri gŵr doeth â'u hanrhegion o'r hen draddodiad gwiw. Hawdd yw eu hadnabod. Dacw Melchior ac eira llawr gaeaf ar ei farf a'i wallt. Pwy, dwedwch, yw'r un ifanc sy'n penlinio? Caspar, wrth gwrs, â'i lygaid effro yn syllu ar wrthrych eu taith ryfedd. Mae rhyw serenedd yn nhrem Balthasar sy'n awgrymu bod y doethion hyn wyneb yn wyneb â 'gallu a doethineb Duw'.

Cynrychiolir byd yr anifeiliaid hefyd: yr asyn a gariodd Mair feichiog 'i fyny o dref Nasareth yng Ngalilea i Jwdea, i dref Dafydd a elwir Bethlehem', ychen sy'n cnoi ei gil yn ddigyffro yng nghanol y cyffro ac yn ddidaro ynglŷn â'r defnydd a wneir o'i breseb ac oenig sy'n chwilio am flewyn glas. Dyna hwy holl gynnwys y bocs.

Llund bocs o deganau plastig yn haerllug ail-greu digwyddiad nad oes modd ei ail-greu. Ac at hynny rhyw gwmni sy'n cynhyrchu teganau yn elwa yn sgil y digwyddiad hwnnw.

Ond eto dros ganrifoedd maith mae pobl dda a duwiol wedi sefyll i syllu ar olygfa'r geni mewn groto ac wedi dwyn i gof eiriau'r llu nefol: 'Gogoniant yn y goruchaf i Dduw...'

Mewn festrioedd ledled Cymru o hyn i'r Nadolig perfformir drama'r geni gan blant bach ein Hysgolion Sul: 'Fi yw Mair, ac O! rwyf wedi blino... A oes lle i Joseff a minnau yn eich llety?'

Dacw ddau neu dri o'r plant hŷn yn aildrefnu'r llwyfan; gosod bocs yn y canol a rhoi doli blastig ynddo, ac amneidio ar yr actorion nad ydynt yn rhyw boeni llawer am eu llinellau am fod y wledd o jeli a lemonêd a fydd yn eu haros wedi'r perfformiad ac efallai anrheg yn mynd â'u bryd. Caiff un o'r bugeiliaid bwl o chwerthin am fod Lowri, sef y Fair, yn edrych yn wirion wedi'i lapio mewn cyrtens glas a chlamp o seffti-pin yn eu cau amdani.

Gwyn Thomas, y bardd, a ganodd:

Ond yn y cariad fydd rhwng y muriau hynny
Ar noson y ddrama, bydd pawb yn deulu;
Bydd diniweidrwydd gwyn yr actorion
Yn troi'r pethau cyffredin, yn wyrthiol, yn eni,
A bydd yn ein nos, yn ein tywyllwch, y seren letrig
Yn cyfeirio'n ôl at y gwir Nadolig,
At y goleuni hwnnw na ellir mo'i gladdu.
Ac yng nghanol dirni ac enbydrwydd byd sy'n gaeth dan rym Herod
Fe ddywedir eto nad yw Duw ddim yn darfod.

Teganau plastig a lleisiau plant bychain yn cyfleu rhyfeddod Duw yn dod i'n byd. Ac nid yw'n carolau, o feddwl am y peth, ond teganau geiriol sy'n cyfleu yr un rhyfeddod.